# Gyrrwr pa mor ddiogel fyddwch chi?

Adnodd 6b

Dehongli'r Sgoriau

Os yw eich sgôr CYFLYMDER yn 17 neu fwy

Mae'n hawdd meddwl beth bynnag fo'r amodau y gallwch roi eich troed i lawr a mynd mor gyflym ag y dymunwch a dal i fod yn ddiogel.
Yna pan fydd rhywun neu rywbeth yn mynd yn y ffordd y cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw taro'r brêc.
Calliwch! Nid dim ond llosgi petrol drud mae cyflymder, mae hefyd yn golygu bod dros 1,000 o bobl yn cael eu lladd a tua 100,000 yn cael eu hanafu bob blwyddyn.
Meddyliwch am y peth, mae hynny'n cyfateb i 156 jumbo jet yn dod i lawr. Arafwch!

Os yw eich sgôr RISG yn 16 neu fwy

Iawn, rydych chi'n meddwl y byddwch yn well gyrrwr na phawb. Efallai y byddwch, ond mae cymryd mwy o risgiau oherwydd eich bod yn meddwl eich bod yn well gyrrwr yn golygu eich bod yr un mor debygol â'r gyrwyr gwael i ddiweddu mewn bocs pren. Nid pa mor fedrus ydych chi am drin car a fydd yn eich cadw'n ddiogel, ond dysgu beth sy'n gwneud sefyllfa yn beryglus yn y lle cyntaf.

Os yw eich sgôr CYFLYMDER yn 16 neu lai

Gwyddoch ei bod yn hawdd mynd yn gyflym mewn car. Nid yw'n cymryd llawer o sgil - dim ond ychydig o ego a theimlad o fod yn or-ddiogel. Tra bydd y 'rasiwyr' yn rhoi 'clutch' newydd yn lle'r un y maent wedi ei losgi allan byddwch chi'n defnyddio'r arian yr ydych wedi ei arbed ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r car neu i'w roi tuag at gar newydd.

Os yw eich sgôr RISG yn 15 neu lai

Mae'n amlwg eich bod yn ymwybodol nad yw damweiniau'n digwydd ar hap - mae 90% o anafiadau damwain traffig yn digwydd o ganlyniad i ryw elfen o gamgymeriad gyrrwr. Mae'r risg o fod mewn damwain ffordd yn dod i'w fan uchaf rhwng 16 a 21. Yn ystod yr ystod oedran hwn bydd 1 ymhob 20 gyrrwr yn cael ei anafu. Nid dewis ychwanegol yw gyrru diogel, rhaid iddo fod yn rhan o'r ffordd yr ydych yn gyrru.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent

Os yw eich sgôr ERAILL yn 11 neu fwy

I chi mae gyrru yn gystadleuaeth, gyda phob gyrrwr yn ceisio cael y gorau ar y llall mewn amgylchedd ffyrnig - sy'n golygu lladd neu gael eich lladd! Rhowch amser a gofod i'ch hun i ymateb i bobl eraill a chaniatáu ar gyfer eu camgymeriadau nhw. Efallai nad eich bai chi fydd damwain ond nid bai yw'r peth pwysig pan ddigwydd y gwaethaf.

Os yw eich sgôr ERAILL yn 10 neu lai

Rydych yn deall bod gyrru yn sgil cymdeithasol hefyd. Mae eich amynedd a'ch goddefgarwch yn golygu y byddwch yn gweld gyrru yn fwy pleserus na'r rhan fwyaf. Mae'n golygu hefyd y bydd gennych fwy o siawns o yrru yn eich henaint.

Os yw eich sgôr YN Y CAR yn 11 neu fwy

Bydd eich gyrru weithiau'n anrhagweladwy. Tra eich bod yn awyddus i ddangos eich hun i ffrindiau, chi yw Mr Gofal pan fyddwch yn gyrru gyda'ch Mam a'ch Tad yn y car. Byddwch yn gyson ac mewn rheolaeth. Os ydych yn yrrwr da ni ddylai eich teithwyr gael unrhyw syndod!

Os yw eich sgôr YN Y CAR yn 10 neu lai

Bydd eich gyrru yn debygol o fod yn gyson ac o dan reolaeth. Yr unig broblem yw y bydd eich ffrindiau yn gofyn i chi yrru drwy'r amser! Pan fyddant yn gwneud hynny byddwch yn barod i droi'r stereo i lawr neu ofyn iddynt beidio â siarad â chi a thynnu eich sylw. Byddwch yn gadarn a byddwch yn cadw eich rheolaeth.

© Copyright of Gwent Police
© Hawlfraint Heddlu Gwent